Os hoffech gael cyngor annibynnol, cefnogaeth neu wybodaeth gallwch gysylltu â SNAP Cymru.

0808 801 0608
enquiries@snapcymru.org
www.snapcymru.org/contact

Os na chaiff anghytundeb ei ddatrys gyda'ch ysgol, gallwch gael help gan eiriolwr.

Mae eiriolwr yn rhywun sy'n siarad ar ran rhywun arall. Gall wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth a sut rydych chi'n teimlo. Cysylltwch â:

0808 801 0608
enquiries@snapcymru.org
www.snapcymru.org/contact

Os nad ydych yn hapus o hyd ac nad yw eich ysgol wedi mynd i'r afael â'ch pryder, gallwch ofyn i'r Awdurdod Lleol helpu.

Mae gan yr Awdurdod Lleol bobl a all eich helpu a chynnig datrys anghydfodau. Cysylltwch â:

029 2087 2731
LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk

**ADYTA: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg**
Fframwaith cyfreithiol newydd sy'n newid y ffordd y mae disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi.

**Datrys anghydfod**
Mae Datrys Anghydfod yn golygu bod yr holl bobl berthnasol yn cyfarfod i gytuno ar ffordd ymlaen.

**Ceir rhagor o wybodaeth yn:**
Gwasanaethau Addysg Caerdydd: www.gwasanaethauaddysgcaerdydd.co.uk
Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION
CARDIFF CAERDYDD

# Gwybodaeth i Ddysgwyr

## Gwybodaeth i Ddysgwyr

# Cynlluniau Datblygu Unigol

**Gall angen help ychwanegol yn yr ysgol olygu bod gennych Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).**
Mae plant gydag ADY angen help ychwanegol i ddysgu. Gall hyn fod oherwydd bod ganddyn nhw anhawster dysgu neu anabledd. Mae dysgu yn anos iddyn nhw nag i blant eraill o'r un oedran.

Os oes gennych ADY bydd gennych Gynllun Datblygu Unigol (CDU)

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION
CARDIFF CAERDYDD

**CDU:** Cynllun Datblygu Unigol Cynllun y cytunwyd arno'n nodi'r unigolyn a gaiff ei gefnogi, gyda beth y caiff ei gefnogi a sut y caiff ei gefnogi

**Cydlynydd ADY:** Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Beth sydd yn y CDU?

- Enw
- Oedran
- Yr enw yr hoffech ei ddefnyddio
- Rhywedd/rhagenwau
- Cyfeiriad
- Enw'r ysgol
- Sut rydych yn cyfathrebu orau
- Pwy sy'n gofalu am eich CDU
- Proffil Un Tudalen
- Disgrifiad o'ch ADY
- Pa ddarpariaeth gaiff ei rhoi ar waith i'ch cefnogi yn yr ysgol a phwy sy'n mynd i wneud hynny
- Digwyddiadau allweddol yn eich bywyd

## Sut ydw i'n cael CDU?

Ein hysgol neu'r Awdurdod Lleol fydd yn penderfynu a oes gennych ADY sy'n gofyn am ychydig mwy o help yn yr ysgol. Os oes angen ychydig mwy o help arnoch, bydd gennych CDU.

## Pwy fydd yn ysgrifennu fy CDU?

Fel arfer, caiff cynlluniau eu hysgrifennu gan ysgolion gyda chi, eich teulu a phobl eraill sy'n eich adnabod. Weithiau caiff y cynlluniau eu hysgrifennu gan yr Awdurdod Lleol.

## Beth yw hyd y broses?

Gall gymryd 7 wythnos i ysgol ysgrifennu'r CDU. Gall gymryd 12 wythnos i ALl ysgrifennu'r cynllun.

## Alla i newid y cynllun?

Rhaid adolygu'r cynllun o fewn blwyddyn neu os yw rhywbeth wedi newid yn sylweddol yn eich bywyd. Mae adolygiad yn golygu y bydd y cynllun yn cael ei ystyried eto i sicrhau ei fod yn dal i weithio ac a oes angen newidiadau.

## Beth os nad ydw i'n hapus?

Siaradwch â'ch Cydlynydd Dynodedig neu athro eich dosbarth yn yr ysgol.

## Mae angen help arna i!

Gall ffrind achos eich helpu. Gall ffrind achos fod yn ffrind agos, aelod o'r teulu, gweithiwr cymdeithasol neu athro.

**Cydlynydd Dynodedig**
Bydd oedolyn yn yr ysgol sy'n eich adnabod yn dda yn eich helpu ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am ADY a Chynlluniau Datblygu Unigol. Gelwir y person hwn yn Gydlynydd Dynodedig.

**Hawl i apelio**
Mae gan ddysgwyr a rhieni yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau